

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Sir Ddinbych

Cyhoeddwyd: Ionawr 2012
Cyfeirnod y ddogfen: 646A2011



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £15 biliwn a ddyfernir i Gymru'n flynyddol gan Senedd San Steffan. Mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo bron £5.5 biliwn o'r arian hwn i lywodraeth leol ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn arall drwy'r dreth gyngor ac ardrethi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud i arian cyhoeddus gyfrif, drwy hybu gwelliannau, fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol a reolir yn dda sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gymorth Stephen Martin, Karen Lees a chydweithwyr o dan arweiniad Alan Morris i gynnal yr Asesiad Gwella a llunio'r adroddiad hwn.

# Cynnwys


**Crynodeb ac argymhellion a chynigion ar gyfer gwella** **4**

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 8

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gwella canlyniadau i drigolion drwy weithredu gwell systemau cynllunio, cyflawni ac adrodd ond mae mwy o waith i'w wneud i gyflawni ei amcanion uchelgeisiol 9

Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei waith cynllunio a'i drefniadau i gyflawni gwelliannau 10

Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at gyflawni ei amcanion gwella ond bydd angen gwneud mwy o gynnydd i gyflawni ei nodau 20

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran ei gamau arfaethedig i wella'r ffordd y mae'n gweithio ac wedi gwneud cynnydd da tuag at ddod yn gyngor sy'n perfformio'n dda ac sy'n agos at y gymuned 20

Mae'r Cyngor yn addasu'r modd y darperir gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion nifer gynyddol o bobl hŷn a phobl anabl ac mae'n dechrau mynd i'r afael â'r agenda newid demograffig ehangach 23

Mae cynnydd yn cael ei wneud i gefnogi gwaith adfywio yn y Rhyl ac o ran economi'r sir ond mae angen gwneud rhagor o waith i asesu faint o weithgarwch ac adnoddau sydd eu hangen i gyflawni amcanion y Cyngor 26

Dywed y Cyngor fod cynnydd yn cael ei wneud i foderneiddio'r gwasanaeth addysg. Caiff perfformiad y Cyngor ei adolygu mewn arolygiad gan Estyn ar ddechrau 2012 28

Mae'r rhaglen gyfalaf i wella ffyrdd ac amddiffynfeydd llifogydd yn cael ei chyflawni ac mae rhagor o waith mawr ar y gweill 30

Mae'r Cyngor yn darparu gwell gwasanaethau gofal cymdeithasol, tai a rheoli gwastraff i drigolion ond gellir gwneud rhagor o welliannau 32

Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o hunanasesiadau a gwell systemau gwerthuso perfformiad i ddarparu a gwella gwasanaethau 34

**Atodiadau**

**Atodiad 1**
Statws yr adroddiad hwn 38

**Atodiad 2**
Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Ddinbych a Chyngor Sir Ddinbych 39

**Atodiad 3**
Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Sir Ddinbych 41

**Atodiad 4**
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Ddinbych 43

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol yng Nghymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ystyried gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, a gwaith Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae tair prif adran i'r adroddiad sy'n cwmpasu'r gwaith o gynllunio, cyflawni a gwerthuso gwelliant gan Gyngor Sir Ddinbych (y Cyngor).

2 Mae'r Cyngor wedi pennu'r nod o fod yn gyngor sy'n perfformio'n dda ac sy'n agos at y gymuned. Yn ogystal â'i ddyletswyddau statudol, mae ganddo bum amcan gwella sef:

- addasu'r modd y darperir gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael â newidiadau demograffig;
- lleihau amddifadedd a thyfu economi Sir Ddinbych yn gynaliadwy drwy dargedu adnoddau mewn ffordd strategol;
- moderneiddio'r gwasanaeth addysg i gyflawni lefel uchel o berfformiad ar draws y sir;
- sicrhau rhwydwaith ffyrdd ac amddiffynfeydd llifogydd cynaliadwy;
- gwella'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio.

3 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad cyffredinol bod y Cyngor yn gwella canlyniadau i drigolion drwy weithredu gwell systemau cynllunio, cyflawni ac adrodd ond mae mwy o waith i'w wneud i gyflawni ei amcanion uchelgeisiol.

4 Gwelsom fod y Cyngor yn parhau i ddatblygu ei waith cynllunio a'i drefniadau i gyflawni gwelliannau. Mae wedi symleiddio ei drefniadau llywodraethu, datblygu trefniadau cydweithio â phartneriaid ymhellach, ac mae wedi gwneud cynnydd da yn ymateb i awgrymiadau mewn adroddiadau blaenorol.

5 Nodwyd gennym hefyd fod y Cyngor yn gweithio tuag at gyflawni ei amcanion gwella ond bydd angen gwneud mwy o gynnydd i gyflawni ei nodau. Gwnaethom seilio'r casgliad hwn ar y canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran ei gamau arfaethedig i wella'r ffordd y mae'n gweithio a dod yn gyngor sy'n perfformio'n dda ac sy'n agos at y gymuned'.
- Mae'r Cyngor yn addasu'r modd y darperir gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion nifer gynyddol o bobl hŷn a phobl anabl, ac mae'n dechrau mynd i'r afael â'r agenda newid demograffig ehangach.
- Mae cynnydd yn cael ei wneud i gefnogi gwaith adfywio yn y Rhyl ac o ran economi'r sir ond mae angen gwneud rhagor o waith i asesu faint o weithgarwch ac adnoddau sydd eu hangen i gyflawni amcanion y Cyngor.
- Dywed y Cyngor fod cynnydd yn cael ei wneud i foderneiddio'r gwasanaeth addysg. Caiff perfformiad y Cyngor ei adolygu mewn arolygiad gan Estyn ar ddechrau 2012.
- Mae'r rhaglen gyfalaf i wella ffyrdd ac amddiffynfeydd llifogydd yn cael ei chyflawni ac mae rhagor o waith mawr ar y gweill.

- Mae'r Cyngor yn darparu gwell gwasanaethau gofal cymdeithasol, tai a rheoli gwastraff i drigolion ond gellir gwneud rhagor o welliannau.

6 Yn olaf, mae'r adroddiad yn nodi ein barn ar hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad a'i drefniadau. Daethom i'r casgliad fod y Cyngor yn gwneud defnydd da o hunanasesiadau a gwell systemau gwerthuso perfformiad i ddarparu a gwella gwasanaethau.

# Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

7 Nid oes unrhyw argymhellion ffurfiol ond gwneir y cynigion canlynol ar gyfer gwella i'r Cyngor er mwyn cefnogi gwelliannau:

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| **C1** | Fel awdurdodau eraill yng Nghymru, dylai'r Cyngor ddefnyddio ei adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu i ddarparu hunanasesiad mwy cadarn o'i effeithiolrwydd. |
| **C2** | Erbyn mis Medi 2012 dylai'r Cyngor bennu sut y bydd yn cefnogi cynllun cyflenwi'r *Rhyl yn Symud Ymlaen* gan gynnwys:<br>• dangos sut mae'n gweddu i raglen adfywio'r sir;<br>• cadarnhau'r staff a'r adnoddau ariannol a fydd ar gael i gyflawni amcanion;<br>• trefniadau ar gyfer gwerthuso cynnydd o bryd i'w gilydd. |

# Adroddiad manwl



# Cyflwyniad

8 Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan yr Archwilydd Cyffredinol gyda chymorth staff Swyddfa Archwilio Cymru. Ar dudalen 2 ceir esboniad cryno o'r hyn y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud.

9 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol yng Nghymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn darparu rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau yng Nghymru, sef Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan ystyried hunanasesiad y Cyngor ei hun.

10 Ym mhob rhan o'r adroddiad, rydym yn nodi'r hyn y mae angen i'r Cyngor ei wneud i wella ei wasanaethau. O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod;
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

11 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn i ni drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gwella canlyniadau i drigolion drwy weithredu gwell systemau cynllunio, cyflawni ac adrodd ond mae mwy o waith i'w wneud i gyflawni ei amcanion uchelgeisiol

12 Cafodd *Cynllun Corfforaethol 2009-2012* y Cyngor ei lunio ar sail pedair blaenoriaeth gorfforaethol (yn ymwneud â darparu gwasanaethau) a phedair thema wella (yn ymwneud â datblygu gallu ac adnoddau'r sefydliad).Yn 2010, pennodd y Cyngor bum amcan gwella ar gyfer 2010-11, yr oedd pedwar ohonynt yn ymwneud â'r blaenoriaethau corfforaethol a fodolai eisoes, ac un yn ymwneud â rhesymoli'r pedair thema wella.Mae'r Cyngor wedi parhau â'r amcanion hyn yn 2011-12, sef:

- addasu'r modd y darperir gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael â newidiadau demograffig;
- lleihau amddifadedd a thyfu economi Sir Ddinbych yn gynaliadwy drwy dargedu adnoddau mewn ffordd strategol;
- moderneiddio'r gwasanaeth addysg i gyflawni lefel uchel o berfformiad ar draws y sir;
- sicrhau rhwydwaith ffyrdd ac amddiffynfeydd llifogydd cynaliadwy;
- gwella'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio.

13 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r cyngor. Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar y prif amcanion y mae'r Cyngor wedi eu pennu iddo'i hun ynghyd â rhai materion allweddol eraill. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

14 Mae'n bwysig bod gan gynghorau hunanddealltwriaeth dda o ba mor effeithiol ydynt a faint o gynnydd a gwelliant y maent yn ei wneud. Mae'r Archwilydd Cyffredinol, arolygiaethau eraill, Llywodraeth Cymru a chynghorau yn meithrin dealltwriaeth gyffredin o brosesau hunanwerthuso effeithiol a fydd o gymorth i waith asesu yn y dyfodol. Rydym wedi gwneud rhai sylwadau cychwynnol ar brosesau hunanwerthuso yn y Cyngor yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Gwelsom fod uwch swyddogion a chynghorwyr yn deall ac yn asesu eu cynnydd yn dda ond nid yw hyn wedi'i adlewyrchu'n llawn yn *Adolygiad Perfformiad Blynyddol* y Cyngor. Rhydd yr adolygiad hwn lawer iawn o wybodaeth ddefnyddiol gan gynnwys asesu cynnydd o ran camau gweithredu penodol, dangosyddion perfformiad a rhai amcanion ond nid yw'n darparu asesiad cyffredinol clir o gynnydd yn erbyn pob un o amcanion gwella'r Cyngor. Drwy gydol yr adroddiad hwn, cyfeiriwn at wybodaeth ac asesiadau'r Cyngor ei hun lle y maent ar gael.

## Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ei waith cynllunio a'i drefniadau i gyflawni gwelliannau

15 Mae'r adran hon yn sôn am waith cynllunio'r Cyngor a'i drefniadau i gyflawni gwelliannau. Mae'n defnyddio agweddau ar amcan y Cyngor i wella'r ffordd y mae'n gweithio. Mae'r adran hon yn cwmpasu'r canlynol:

- canfyddiadau blaenorol gan yr Archwilydd Cyffredinol ar y trefniadau gwella;
- Adnoddau Dynol a chynllunio'r gweithlu;
- systemau llywodraethu gan gynnwys trefniadau gwneud penderfyniadau a chraffu;
- trefniadau i gydweithio â chynghorau a chyrff eraill a gweithio mewn partneriaeth â hwy;
- y defnydd o adnoddau a threfniadau i fynd i'r afael â'r heriau ariannol a wynebir gan bob cyngor;
- trefniadau'r Cyngor i fodloni gofynion *Deddf Cydraddoldeb 2010* a chefnogi'r Gymraeg;
- sut mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'r cyhoedd a chymunedau lleol.

16 Gwelsom fod y Cyngor yn parhau i ddatblygu ei waith cynllunio a'i drefniadau i gyflawni gwelliannau.

### Ym mis Gorffennaf 2011, nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod tîm arwain y Cyngor yn parhau i lywio newid ac yn gweithio i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn flaenorol

17 Ym mis Gorffennaf 2011, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol lythyr yn ymwneud â'r *Diweddariad o ran yr Asesiad Corfforaethol* i'r Cyngor. Roedd y llythyr yn sôn am ddatblygiadau ers yr adroddiadau blaenorol a chadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol ei fod yn fodlon bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur a'i fod yn debygol o gydymffurfio â'i ofynion yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Daeth i'r casgliad fod tîm arwain y Cyngor yn parhau i lywio newid ac yn gweithio i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn flaenorol. Roedd yr asesiad hwn yn seiliedig ar ein canfyddiadau sef:

- roedd cynnydd da yn cael ei wneud yn y meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol ar gyfer 2010;
- roedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â gwendidau mewn trefniadau adnoddau dynol, er iddo wneud llai o gynnydd o ran cynllunio'r gweithlu;
- roedd rhagor o gynnydd wedi'i wneud o ran datblygu trefniadau cydweithio;
- roedd dull y Cyngor o ymgysylltu â'r cyhoedd yn gwella;
- roedd y Cyngor mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'i heriau ariannol, er ei fod yn anochel bod graddau'r newid sydd ei angen yn golygu y bydd angen arweiniad a chyfeiriad clir parhaus.

### Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r meysydd ar gyfer gwella a nodwyd mewn adroddiadau blaenorol gan yr Archwilydd Cyffredinol

18 Gwnaed cynigion ar gyfer gwella yn ein *Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol* ym mis Gorffennaf 2010 ac yn ein *Hadroddiad Gwella Blynyddol* blaenorol ym mis Ionawr 2011. Nid oedd unrhyw argymhellion na chynigion ychwanegol yn y llythyr yn ymwneud â'r Diweddariad o ran yr *Asesiad Corfforaethol*.

Arddangosyn 1: Cynnydd ar gynigion blaenorol

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r meysydd hynny y tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw atynt yn flaenorol fel rhai yr oedd angen eu gwella.

| Cynigion blaenorol ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| **Cynigion a wnaed yn yr *Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol*, Gorffennaf 2010** | |
| Dylai'r Cyngor ddatblygu a gweithredu ei gynlluniau i symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau a chraffu ymhellach er mwyn sicrhau bod rolau yn glir ac y neilltuir amser i'r materion y rhoddir y pwys mwyaf arnynt. | Cwblhawyd: *Paragraffau 23-29* |
| Dylai'r meini prawf llwyddiant ar gyfer cyflawni'r uchelgais i fod yn Gyngor sy'n perfformio'n dda ac sy'n agosach at y gymuned gael eu mynegi'n gliriach er mwyn gallu asesu lefelau cynnydd. | Cynnydd da: *Paragraffau 55-56* |
| Dylai arweinwyr y Cyngor wella'r ffordd y maent yn asesu eu gwerth am arian a sut y caiff hyn ei gyfleu, fel bod gan aelodau etholedig a swyddogion well dealltwriaeth o'r cynnydd a wneir wrth wella effeithlonrwydd. | Cynnydd rhesymol: *Paragraff 40* |
| **Cynigion ychwanegol a wnaed yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol*, Ionawr 2011** | |
| Dylai'r Cyngor gynnwys plant a phobl ifanc yn ei waith ymgynghori ac ymgysylltu lle y bo'n briodol. | Cynnydd da: *Paragraff 57* |
| Dylai'r atebolrwydd a'r gwaith monitro ar gyfer dod yn 'agosach at y gymuned' fod yn fwy eglur. | Cwblhawyd: *Paragraff 55* |
| Dylai'r Cyngor fonitro cynnydd o ran p'un a yw'n gwneud digon o waith i fynd i'r afael ag effaith newid demograffig a sicrhau poblogaeth fwy cytbwys. | Cynnydd da: *Paragraffau 67-69* |
| Dylai'r Cyngor bennu mesurau canlyniadau cliriach ar gyfer gwella ffyrdd ac amddiffynfeydd rhag llifogydd sy'n dangos sut y bydd trigolion yn cael budd o waith y Cyngor. | Cynnydd da: *Paragraffau 95 a 101* |

## Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd yn flaenorol sy'n effeithio ar ei drefniadau adnoddau dynol a chynllunio'r gweithlu

19 Roedd gwaith blaenorol gan y Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi risgiau i effeithiolrwydd yr awdurdod o ran rheoli a chynorthwyo ei staff, ac o ran cynllunio ei ofynion ar gyfer y gweithlu yn y dyfodol. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd yn yr holl brif feysydd lle nodwyd bod angen gwella, ond mae angen gwneud llawer o waith o hyd i ymgorffori'r trefniadau gwell.

20 Mae *Adolygiad Perfformiad Blynyddol* y Cyngor yn darparu rhai sylwadau ar gynnydd o dan yr amcan i wella'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio. Yn eu plith mae'r canlynol:

- bod y Cyngor wedi cyflawni ei darged i leihau absenoldeb oherwydd salwch;
- roedd mwy o staff cymwys wedi cael arfarniad perfformiad, ond roedd y ganran yn dal i fod islaw'r targed;
- roedd *Rhaglen Newid* y Cyngor wedi gwneud arbedion, gan gynnwys drwy ailstrwythuro'r gwasanaeth adnoddau dynol;
- roedd y gwasanaeth adnoddau dynol wedi helpu i ddatblygu cynlluniau gweithlu gwasanaeth a gaiff eu defnyddio fel y sail ar gyfer cynllun gweithlu corfforaethol newydd yn 2011-12.

21 Rydym hefyd wedi nodi'r canlynol:

- Gwneir newidiadau i drefniadaeth gwasanaethau adnoddau dynol. Mae'r rhain yn cynnwys trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gyflawni rhai agweddau ar reoli staff o ddydd i ddydd i reolwyr canol. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a chaiff rheolwyr gymorth swyddogion adnoddau dynol i wneud y newidiadau disgwyliedig.
- Nodwyd gennym fod y staff y gwnaethom siarad â hwy o wahanol adrannau yn gadarnhaol iawn ynghylch gweithio i'r Cyngor ac roedd eu hymwybyddiaeth o flaenoriaethau'r cyngor ynghyd â'u hymwneud â hwy yn uchel.

22 Fodd bynnag, gwnaethom hefyd nodi bod cynnydd yn arafach na'r disgwyl mewn perthynas â rhai gweithgareddau adnoddau dynol. Er enghraifft, bu oedi o ran y cytundeb terfynol ar rai polisïau adnoddau dynol oherwydd cyfarfodydd digworwm. Cafwyd problemau o ran creu gwasanaeth mewnrwyd systemau technoleg gwybodaeth dwyieithog, ac felly bu'n rhaid aros i'r polisïau adnoddau dynol ddod ar gael i'r Cyngor ac ysgolion drwy'r gwasanaeth mewnrwyd newydd. Mae'r newid hwn yn un allweddol o ran ailgynllunio'r gwasanaeth adnoddau dynol a bu'r oedi yn gyfrifol am arafu'r newid i'r ffyrdd newydd o weithio.

## Mae trefniadau llywodraethu wedi cael eu symleiddio ac maent yn ategu systemau arwain a rheoli effeithiol

23 Yn yr *Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol* a gyhoeddwyd yn 2010, argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai'r Cyngor ddatblygu ei gynlluniau i symleiddio prosesau gwneud penderfyniadau a chraffu a

chanolbwyntio ar y materion pwysicaf ymhellach. Mae'r Cyngor wedi ymateb yn llawn i'r argymhelliad hwn.

24 Mae *Adolygiad Perfformiad Blynyddol* y Cyngor yn nodi iddo gwblhau ei adolygiad arfaethedig o strwythurau democrataidd a chraffu a gwell prosesau rheoli ac atebolrwydd. Ymhlith y newidiadau hyn crëwyd tri phwyllgor trawsbynciol ar gyfer 'perfformiad', 'cymunedau' a 'partneriaethau' yn lle pedwar pwyllgor craffu seiliedig ar gyfarwyddiaeth. Cyflwynwyd strwythur newydd o uwch reolwyr ym mis Ionawr 2011 gyda thri chyfarwyddwr corfforaethol, yn lle pedwar, sy'n gyfrifol am reoli perfformiad penaethiaid gwasanaeth yn hytrach na rheoli gwasanaethau'n uniongyrchol. Mae'r *Adolygiad Perfformiad Blynyddol* hefyd yn nodi bod y Cyngor wedi cwblhau ei gynlluniau i ymchwilio i ddatblygu Grwpiau Ardal Aelodau. Mae'r rhain wedi cael eu sefydlu bellach a bwriedir iddynt chwarae rôl yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau trefi ac amcanion eraill.

25 Gweithredwyd y trefniadau craffu newydd hyn ym mis Mai 2011 ac felly mae'n rhy gynnar barnu a fuont yn llwyddiannus. Serch hynny, er bod rhai problemau cychwynnol gyda'r trefniadau newydd, credwn eu bod yn gadarn ac yn datblygu'n foddhaol, am y rhesymau canlynol:

- Mae'r newid o waith craffu seiliedig ar 'wasanaeth' i ffocws mwy trawsbynciol/ehangach yn gweddu i'r dull gweithredu corfforaethol cyffredinol a newidiadau i'r strwythur rheoli.
- Mae cynghorwyr wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o lunio'r broses graffu newydd ac mae llawer o gynghorwyr (gan gynnwys cadeiryddion craffu) yn ymrwymedig i'w llwyddiant.
- Mae'r Cyngor eisoes wedi cynllunio adolygiad o'r trefniadau newydd, y disgwylir adroddiad arno ym mis Mawrth 2012. Mae angen i'r Cyngor gydnabod y ffaith bod trefniadau craffu yn cymryd peth amser i ymsefydlu a dangos effaith.
- Mae'r broses o nodi a dewis eitemau o waith craffu wedi cael ei datblygu gan gynghorwyr a swyddogion ac mae hefyd yn eu cynnwys. Mae'r broses yn un gadarn yn yr ystyr ei bod wedi canolbwyntio ar y blaenoriaethau corfforaethol.
- Er mwyn mynd i'r afael â'r posibilrwydd o golli 'arbenigedd cynghorwyr' o dan y trefniadau newydd, mae'r Pwyllgor Craffu ar Berfformiad wedi rhoi rôl arweiniol ar gyfer meysydd gwasanaeth penodol i aelodau unigol er mwyn sicrhau eu bod yn meithrin ac yn cynnal arbenigedd. Hefyd, roedd y broses o adolygu gwasanaethau ddwywaith y flwyddyn a'r broses herio yn cynnwys cynghorwyr yn yr adolygiadau o wasanaethau unigol, fel eu bod yn gallu meithrin arbenigedd.
- Mae'r wybodaeth a roddwyd i'r pwyllgorau craffu mewn fformat safonol ac mae o ansawdd da.
- Gellid gwella ansawdd y cwestiynau a ofynnwyd gan rai aelodau pwyllgorau er mwyn sicrhau bod eu cwestiynau'n canolbwyntio'n fwy cyson ar y materion cywir, a'u bod yn gryno ac yn ymchwilgar.

26 Gwelsom fod uwch gynghorwyr a swyddogion yn cynnig arweinyddiaeth glir ac effeithiol. Ymddengys hefyd fod y newidiadau i drefniadau'r uwch reolwyr wedi ymsefydlu'n gyflym. Gwelsom dystiolaeth glir fod y trefniadau newydd yn cael effaith gadarnhaol ar y gwaith o arwain blaenoriaethau gwella'r Cyngor, er enghraifft wrth bennu gwell dull cyngor cyfan o ddod yn 'agos at y gymuned' a

chanolbwyntio'n fwy ar waith adfywio.

27 Yn ystod 2011 cynhaliodd y Cyngor adolygiad llywodraethu corfforaethol fel rhan o'r broses o ddiweddaru ei *Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol* a chytuno arno. Mae gan y Cyngor *God Llywodraethu Corfforaethol*, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE sef *Delivering Good Governance in Local Government*. Nododd yr adolygiad fod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i gyflawni'r chwe egwyddor yn y fframwaith ond nododd yr adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau dair risg lywodraethu fawr:

- Llywodraethu partneriaethau: Ar hyn o bryd nid oes fframwaith llywodraethu partneriaethau ar waith i sicrhau bod unrhyw risgiau sy'n deillio o waith partneriaeth yn cael eu rheoli'n effeithiol.
- Llywodraethu gwybodaeth: Mae adroddiadau gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi codi pryderon difrifol am reoli gwybodaeth o fewn y Cyngor, yn enwedig y ffaith bod diffyg arweiniad corfforaethol i ddatblygu'r system llywodraethu gwybodaeth.
- Perfformiad a datblygiad aelodau etholedig: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw asesiad o anghenion hyfforddi aelodau etholedig nac unrhyw gynllun hyfforddi i ddatblygu aelodau. Mae'r Arweinydd wedi llunio proses arfarnu ar gyfer aelodau'r Cabinet, ond nid yw'r Cabinet wedi cymeradwyo'r broses hon yn swyddogol eto.

28 Mae'r Cyngor wedi cynllunio camau i fynd i'r afael â'r risgiau hyn, fel y nodir yn y *Datganiad Llywodraethu Blynyddol*. Nododd yr adolygiad hefyd fod y Cyngor yn adolygu ei drefniadau rheoli risg presennol, ar ôl cydnabod yr angen i wella'r broses o ymgorffori gweithdrefnau rheoli risg o fewn y Cyngor ac o fewn partneriaethau.

29 Er i'r adolygiad nodi rhai risgiau'n ymwneud ag effeithiolrwydd rhai agweddau ar lywodraethu, canolbwyntiodd yr adolygiad ar b'un a oedd trefniadau ar waith yn hytrach na'u heffeithiolrwydd. Gall y Cyngor gynyddu'r pwyslais ar effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu ac ehangu'r rhan a chwaraeir yn y broses fel bod yr adolygiad yn darparu hunanasesiad mwy cadarn.

## Mae'r Cyngor wedi datblygu ei drefniant ar gyfer cydweithio lleol a rhanbarthol ymhellach

30 Dywed yr *Adolygiad Perfformiad Blynyddol* fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran ei fwriad i gyflawni agenda gydweithio a phrosiectau cydweithio mawr ar reoli gwastraff. Mae'r adolygiad yn disgrifio rhai o'r trefniadau sy'n datblygu, er mai prin y mae'n gwerthuso effeithiolrwydd y datblygiadau hyn na'r rhesymau dros gydweithio ar rai materion ac nid ar eraill.

**Conwy**

31 Mae'r Cyngor yn cydweithio cryn dipyn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, mewn amrywiaeth o gyrff partneriaeth lleol sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ac mewn datblygiadau rhanbarthol ehangach â chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru.

32 Ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, mae'r Cyngor wedi datblygu Bwrdd Arwain ar y cyd ac mae'n ystyried integreiddio gwasanaethau ar gyfer Priffyrdd a Seilwaith a Chynllunio, a Diogelu'r Cyhoedd. Mae'n datblygu prosesau a chynlluniau ar y cyd, sesiynau herio perfformiad ar y cyd a chynhaliodd gyfarfod Trosolwg a Chraffu Partneriaeth ar y Cyd ym mis Rhagfyr 2011.

**Cydweithio â phartneriaid lleol eraill**

33 Mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu nifer o brosiectau cydweithredol â phartneriaid perthnasol. Yn eu plith mae'r Gwasanaeth Gofal Lefel Uwch yn y Cartref gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r prosiect hwn yn darparu gwasanaethau gofal canolraddol gartref i bobl y gallai fod wedi bod angen gofal mewn ysbyty arnynt fel arall. Dilynodd hyn y penderfyniad i gau 52 o welyau cleifion mewnol yn Ysbyty Brenhinol Alexander yn y Rhyl. Dechreuodd y gwasanaeth ym mis Mehefin 2010 a bu'r gwaith gwerthuso cynnar gan y bwrdd iechyd a'i bartneriaid yn gadarnhaol.

34 Drwy gydweithio a rhesymoli partneriaethau, mae amrywiaeth o wasanaethau integredig neu a rennir a chyrff partneriaeth ar y cyd yn datblygu. Yn eu plith mae'r canlynol:

- Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych o fis Medi 2011;
- Bwrdd Lleol Diogelu Plant ar y cyd rhwng Conwy a Sir Ddinbych;
- Tîm Troseddau Ieuenctid ar y cyd rhwng Conwy a Sir Ddinbych;
- Tîm Dyletswydd Brys (gwaith cymdeithasol) Gogledd-ddwyrain Cymru ar gyfer Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint.

35 Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi cytuno ar *Y Cynllun MAWR ar gyfer Sir Ddinbych sef Strategaeth Gymunedol; Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles; Cynllun Plant a Phobl Ifanc; a Chynllun Diogelwch Cymunedo*l integredig. Mae'n seiliedig ar gyflawni canlyniadau i drigolion ac mae wedi cael ei fireinio drwy waith ymgynghori helaeth â'r gymuned leol, sy'n enghraifft o arfer da o ran ymgysylltu â'r cyhoedd yn ein barn ni.

**Mae prosiectau cydweithredol rhanbarthol yn cael eu datblygu**

36 Ar y cyd â chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru, mae Sir Ddinbych yn rhan o Dîm Arwain Rhanbarthol Gogledd Cymru ac mae'n ymwneud â phedwar bwrdd rhaglen, y mae gan bob un ohonynt nifer o brosiectau cydweithio rhanbarthol (gweler Arddangosyn 2).

Arddangosyn 2: Prosiectau cydweithio rhanbarthol

Mae'r pedwar bwrdd rhaglen rhanbarthol yn datblygu amrywiaeth o brosiectau.

| Bwrdd rhaglen | Prosiectau |
|---|---|
| **Addysg a Gwasanaethau Cysylltiedig** | • Y Gwasanaeth Gwella Ysgolion<br>(Disgwylir i ail gam ehangu cwmpas y gwasanaeth)<br>• Cydweithio mewn Gwasanaethau Llyfrgell |
| **Gofal Cymdeithasol ac Iechyd** | • Canolfan Gomisiynu<br>• Gwasanaethau Cefnogi Pobl<br>• Teleofal<br>• Datblygu'r Gweithlu<br>• Cymorth TGCh ar gyfer cofnodion cleientiaid (PARIS a RAISE) |
| **Bwrdd Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoleiddiol** | • Rheoli Fflyd<br>• Trawsnewid Trafnidiaeth<br>• Gwastraff<br>• Ehangu Taith<br>• Datblygu Economaidd |
| **Gwasanaethau Cymorth** | • Gwasanaethau Cyfreithiol<br>• TGCh<br>• Caffael<br>• Gostyngiadau Person Sengl<br>• Cynllunio at Argyfwng |

**Datblygiadau rhanbarthol eraill**

37 Mae sawl prosiect cydweithio rhanbarthol arall wedi cael eu datblygu ar wahân. Yn eu plith mae'r canlynol:

- *Prosiect Gwastraff Bwyd* Canolfan y Gogledd-ddwyrain gyda Chyngor Sir y Fflint a Chyngor Conwy a fydd yn darparu safle treulio anerobig i drin bwyd cartrefi. Ceisir caniatâd cynllunio cyn bo hir ar gyfer safle yn Sir Ddinbych a chytunwyd ar y dewis gwmnïau i ddatblygu'r prosiect.
- *Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru* ar gyfer pum cyngor yng Ngogledd Cymru y mae tri chwmni rheoli gwastraff wedi cyrraedd y rhestr fer yn ddiweddar i gyflwyno ateb hirdymor ar gyfer trin gwastraff gweddilliol yng Ngogledd Cymru.

## Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i ymdrin â'i heriau ariannol

38 Yn y llythyr yn ymwneud â'r *Diweddariad o ran yr Asesiad Corfforaethol* ym mis Gorffennaf 2011, nododd yr Archwilydd Cyffredinol fod y 'Cyngor mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'i heriau ariannol, er ei fod yn anochel bod graddau'r newid sydd ei angen yn golygu y bydd angen arweiniad a chyfeiriad clir parhaus'. Dyma'r achos o hyd.

39 Mae *Adolygiad Perfformiad Blynyddol* y Cyngor yn crynhoi'r ffordd y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r rhagamcanion o ran setliad cyllidebol is dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae'n nodi'r canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r broses Herio Gwasanaethau i nodi arbedion.
- Mae'r Cyngor wedi llunio Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n nodi sut y bydd yn gwneud arbedion rhwng 2010 a 2016.
- Yn sgîl y ffaith bod grantiau wedi'u derbyn yn hwyr yn y flwyddyn ariannol bu modd cynyddu cronfeydd wrth gefn yn ystod 2010-11.
- Roedd y broses o bennu cyllideb 2010-11 yn cynnwys dyrannu £1 filiwn i'w buddsoddi ym mlaenoriaethau gwella'r Cyngor. Cafodd y ffigur hwn ei gynyddu i £1.5 miliwn yn 2011-12 gyda'r gyfran fwyaf yn cael ei defnyddio i gefnogi benthyciadau darbodus ar gyfer gwaith priffyrdd mawr.

40 Mae'r cyfarfodydd adolygu a herio gwasanaethau yn cynnwys aelodau etholedig a swyddogion allweddol. Maent yn herio'r hunanasesiad o bob gwasanaeth ac yn ystyried y potensial i wneud newidiadau mawr i wasanaethau a nodi effeithlonrwydd ac arbedion. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi cynyddu'r ffocws ar werth am arian a gwella canlyniadau drwy wneud newidiadau i wasanaethau. Mae aelodau etholedig a swyddogion wedi bod yn rhan o'r prosesau hyn ac mae pob aelod wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd cyngor anffurfiol i ystyried rhaglen effeithlonrwydd y Cyngor. Mae'r prosesau hyn wedi helpu i gynyddu dealltwriaeth aelodau o'r gwerth am arian a gynigir gan wasanaethau a'r Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd wedi adolygu'r gwerth am arian a gyflawnir drwy ddatblygiadau penodol. Er enghraifft, mae wedi ystyried effaith yr arian ychwanegol a roddwyd i ysgolion yn 2010-11 i gefnogi blaenoriaethau addysg allweddol a chyflwynwyd adroddiad ar hyn i'r Pwyllgor Craffu ar Berfformiad.

41 Ar 30 Medi 2011, rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor. Mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

## Mae'r Cyngor yn paratoi ar gyfer y cyfrifoldebau newydd a gyflwynir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac mae wedi cydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg gyda rhai mân eithriadau

42 Yn ôl *Adolygiad Perfformiad Blynyddol* y Cyngor, mae bron wedi cyflawni'r targedau yn ei Gynllun Cydraddoldebau. Yn sgîl *Deddf Cydraddoldeb 2010*, mae adnoddau wedi canolbwyntio ar sicrhau bod prosesau ar waith i gyflawni'r dyletswyddau ychwanegol a roddir ar gyrff cyhoeddus mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth newydd o fis Ebrill 2012.

43 Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio'n rhanbarthol gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Ngogledd Cymru i ddatblygu set o amcanion cydraddoldeb ar y cyd i fynd i'r afael â materion cyffredin yn y rhanbarth. Cytunwyd ar Fframwaith Tegwch newydd ynghyd â phecyn cymorth Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb. Yr her sy'n weddill yw gweithredu'r pecyn cymorth newydd a darparu cymorth i ymgorffori'r broses ym musnes y Cyngor o ddydd i ddydd.

44 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) yn gweithio gyda chynghorau i'w helpu i ddatblygu cynlluniau iaith Gymraeg sy'n llywio'r ffordd y mae cyngor yn darparu gwasanaethau i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Aeth y Bwrdd ati i arolygu gwefan y Cyngor, ynghyd â hysbysiadau swyddogol a dogfennaeth etholiadol yn ystod y flwyddyn, a daeth i'r casgliad bod 'y Cyngor wedi cydymffurfio â'i Gynllun Iaith gyda rhai mân eithriadau. Cafodd y Cyngor ei ganmol gan y Bwrdd am y fath gydymffurfiaeth, ond gwnaeth hefyd bwysleisio'r angen i sicrhau bod disgrifiadau swydd Cymraeg yn ymddangos ar wefan y Cyngor ar yr un pryd â'r rhai yn Saesneg. Croesawodd y Bwrdd y ffaith y bydd modd gwneud cais am swydd gyda'r Cyngor ar-lein yn Gymraeg cyn bo hir. Mae'r Cyngor wedi derbyn cwynion am waith cyfieithu a wneir gan drydydd partïon ar ei ran ac mae'r Bwrdd wedi gofyn i'r Cyngor ymchwilio i'w brosesau cyfieithu.'

## Mae dull y Cyngor o ymgysylltu â'r cyhoedd yn gwella

45 Yn ein llythyr yn ymwneud â'r *Diweddariad o ran yr Asesiad Corfforaethol* ym mis Gorffennaf 2011 dywedwyd bod dull y Cyngor o ymgysylltu â'r cyhoedd yn gwella. Roedd y casgliad hwn yn seiliedig ar y canfyddiadau canlynol:

- Mae'r Cyngor yn dangos lefel uchel o ymrwymiad a dealltwriaeth o ran ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'n defnyddio nifer o ddulliau arloesol i ymgysylltu â'r cyhoedd yn fwy effeithiol, yn cynnwys cyllidebu cyfranogol a'r *Drafodaeth Fawr* o ran y gyllideb. Nid oes strategaeth ymgysylltu gorfforaethol ar waith ond mae wrthi'n cael ei datblygu.
- Rhoddir gwybodaeth am wasanaethau'r cyngor i'r cyhoedd yn effeithiol drwy sawl dull cyfathrebu gwahanol ac anogir

adborth i helpu i lywio'r broses o ddarparu gwasanaethau lleol. Fodd bynnag, ni roddir canlyniadau rhai o'r gweithgareddau ymgysylltu hyn i'r cyhoedd. Mae'r ffordd yr ymgysylltir â'r cyhoedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau ond mae trefniadau rheoli perfformiad yn cael eu datblygu o hyd er mwyn monitro a gwerthuso effeithiolrwydd gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd.

- Ceir tystiolaeth bod rhai mentrau ymgysylltu â'r cyhoedd yn gwneud gwahaniaeth i'r broses o ddylunio a darparu polisïau a gwasanaethau ond mae'n rhy gynnar dweud bod dull strategol parhaus o ymgysylltu â'r cyhoedd ar waith.

46 Mae ein gwaith diweddar wedi nodi peth effaith gadarnhaol bellach yn sgîl ymgysylltu â'r cyhoedd gan gynnwys sut mae wedi helpu i nodi materion a datrysiadau posibl i'r rhaglen moderneiddio ysgolion. Gwnaethom nodi pedwar maes o arfer nodedig - bydd gwybodaeth am y rhain ar gael ar Gyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru – www.wao.gov.uk/cymraeg/goodpractice/1488.asp. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- y defnydd o Gyllidebu Cyfranogol ym Mharc Cae Ddôl Rhuthun;
- datblygu'r Grwpiau Ardal Aelodau;
- *Y Drafodaeth Fawr* – ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn 2010 i ymgynghori ar arbedion effeithlonrwydd a gwasanaethau;
- Teulu Ceri – teulu cyfryngau rhithwir ar y we a ddefnyddiwyd i ddechrau yn ystod cam ymgynghori *Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 2008-2011: Sir Ddinbych Iach* ac a ddatblygwyd ymhellach ers hynny.

**Arfer Da**
**Y Drafodaeth Fawr**

Mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun arbedion effeithlonrwydd pedair blynedd i gyflawni arbedion a chyfeirio adnoddau i'w flaenoriaethau. Yn 2010, cafodd y cyhoedd gynigion cychwynnol ac fe'i hanogwyd i gymryd rhan drwy'r *Drafodaeth Fawr* gyda chyfarfodydd cyhoeddus a sylwadau ar-lein. Ymhlith y sylwadau a gafwyd roedd lleihau nifer y cyfarfodydd a lwfansau cynghorwyr, rhewi neu leihau cyflogau rheolwyr a staff, lleihau nifer y blodau a welir, diffodd goleuadau stryd, uno gwasanaethau â chynghorau eraill a thorri'r dreth gyngor. Defnyddiwyd yr awgrymiadau i ddatblygu'r rhaglen a rhoddwyd ymateb i 40 o awgrymiadau penodol. Mae'r ymarfer yn cael ei gynnal eto ar gyfer 2012-13.
Ceir rhagor o wybodaeth yn: www.sirddinbych.gov.uk/ydrafodaethfawr a Chyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru: http://www.wao.gov.uk/cymraeg/goodpractice/1488.asp.

# Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at gyflawni ei amcanion gwella ond bydd angen gwneud mwy o gynnydd i gyflawni ei nodau

47 Mae'r adrannau nesaf yn ystyried y cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud tuag at gyflawni ei amcanion gwella a'i wasanaethau i'w drigolion. Gwelsom fod y Cyngor yn gweithio tuag at gyflawni ei amcanion gwella ond bydd angen gwneud rhagor o gynnydd er mwyn cyflawni ei nodau.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran ei gamau arfaethedig i wella'r ffordd y mae'n gweithio ac wedi gwneud cynnydd da tuag at ddod yn gyngor sy'n perfformio'n dda ac sy'n agos at y gymuned

48 Un o nodau cyffredinol y Cyngor yw dod yn gyngor sy'n perfformio'n dda ac sy'n agos at y gymuned ac un o'i amcanion gwella yw gwella'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio. Nodwyd gennym fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran ei gamau arfaethedig i wella'r ffordd y mae'n gweithio a thuag at ddod yn gyngor sy'n perfformio'n dda ac sy'n agos at y gymuned.

**Gwnaed cynnydd da mewn perthynas â llawer o gamau arfaethedig i wella'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio**

49 Yn 2010, gwnaeth y Cyngor ddwyn ynghyd amrywiaeth o fwriadau arfaethedig ar gyfer gwella'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio. Cyfeiriwyd at y rhan fwyaf o'r camau arfaethedig uchod ac fe'u crynhoir yn Arddangosyn 3 isod gyda'n hasesiad o gynnydd sy'n gyson ag asesiad y Cyngor ei hun ar y cyfan.

50 Ymhlith y mesurau llwyddiant mae cynnydd ar fod yn hanner uchaf awdurdodau lleol Cymru ar gyfer set benodol o ddangosyddion y gwnaed cynnydd da yn eu herbyn (gweler isod). Nodwyd cynnydd o ran lleihau absenoldebau oherwydd salwch ac aelodau staff yn cael eu harfarnu ond 55 y cant oedd canran gyffredinol y mesurau canlyniadau a'r camau gweithredu a oedd ar y trywydd iawn i gyflawni'r amcan hwn yn 2010-11, sef canran a oedd islaw'r targed o 67 y cant. Fodd bynnag, gwnaed cynnydd da mewn llawer o feysydd, fel y nodir isod.

Arddangosyn 3: Gweithgareddau arfaethedig yn 2010-11 'i wella'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio'

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd yn y rhan fwyaf o weithgareddau.

| Gwella'r Cyngor - prif themâu a gweithgareddau | Cynnydd |
|---|---|
| **Thema gwella: Prosesau llywodraethu ac arwain cryf ar gyfer gwelliant** | |
| Cynnal adolygiad o wasanaethau democrataidd a strwythurau craffu. | Cynnydd da |
| Gwella prosesau rheoli ac atebolrwydd rheolwyr. | Cynnydd da |
| **Thema gwella: Diwylliant perfformiad da yn darparu gwerth am arian** | |
| Cyflawni strategaeth ar gyfer cyllid ac asedau cynaliadwy. | Cynnydd da |
| Cyflawni arbedion drwy symleiddio gwasanaethau cymorth a bod yn fwy ynni effeithlon. | Cynnydd da |
| Darparu gwell gwasanaethau a lleihau gwaith papur a'r galw am swyddfeydd drwy ddefnyddio technoleg ddigidol a meddalwedd arloesol. | Cynnydd rhesymol |
| Datblygu dull newydd o gynllunio'r gweithlu. | Rhywfaint o gynnydd |
| **Thema gwella: Bod yn allblyg** | |
| Cyflawni agenda gydweithio a phrosiectau cydweithio mawr ar reoli gwastraff. | Cynnydd rhesymol |
| Parhau i weithredu cytundebau cyflenwi lleol ag asiantaethau partner. | Cynnydd rhesymol |
| **Thema gwella: Canolbwyntio ar y gymuned a'i phobl** | |
| Ystyried y posibiliadau o ran ehangu gwaith cynllunio lleol a datblygu rôl grwpiau aelodau etholedig ardal. | Cynnydd da |
| Cymryd y camau a nodwyd yn ein Cynllun Cydraddoldebau. | Rhywfaint o gynnydd |
| Ymrwymo i weithio gyda'n gilydd, gydag asiantaethau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, er mwyn cyflawni nodau cyffredin ar gyfer y sir. | Cynnydd da |
| Ymrwymo i weithio gyda'n gilydd, gydag asiantaethau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, er mwyn cyflawni nodau cyffredin ar gyfer y sir. | Cynnydd rhesymol |

*Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych a Swyddfa Archwilio Cymru*

**Mae'r Cyngor yn perfformio'n dda yn erbyn dangosyddion perfformiad cenedlaethol**

51 Yng *Nghynllun Corfforaethol 2009-2012*, gwnaeth y Cyngor addewid i ddod yn gyngor sy'n perfformio'n dda ac sy'n agos at y gymuned ac mae wedi gwneud cynnydd cyson tuag at y nod hwn. Ei darged yw bod yn hanner uchaf yr awdurdodau yng Nghymru am berfformiad mewn cyfres o 19 o ddangosyddion sy'n deillio o'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSCau), y mae'n rhaid i bob cyngor eu mesur. Er nad yw'r dangosyddion bob amser yn dda o ran mesur canlyniadau i drigolion, maent yn dod o ystod eang o wasanaethau ac maent yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am y modd y darperir gwasanaethau. Maent yn cynnwys dangosyddion ar gyfer y canlynol: cyrhaeddiad addysgol ar gyfer disgyblion 16 oed; amseroldeb cyhoeddi datganiadau am anghenion addysgol arbennig; cymorth i aelwydydd a allai fod yn ddigartref; yr unedau tai fforddiadwy a ddarperir; newid ysgolion yn achos plant sy'n derbyn gofal; a faint o wastraff a gaiff ei ailgylchu.

52 Ar gyfer 2010-11, mae'r Cyngor wedi gwneud rhagor o gynnydd tuag at ei nod o sicrhau bod perfformiad pob un o'i ddangosyddion dewisol yn hanner uchaf cynghorau Cymru. Mae tri dangosydd lle mae perfformiad islaw'r cyfartaledd ar gyfer cynghorau yng Nghymru. Y tri dangosydd lle mae'r Cyngor yn perfformio islaw'r cyfartaledd yw:

- canran yr holl ddisgyblion sy'n gadael addysg, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster cymeradwy;
- canran y disgyblion yng ngofal yr awdurdod lleol sy'n gadael addysg, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster cymeradwy;
- canran y lleihad mewn allyriadau carbon deuocsid o adeiladau cyhoeddus annomestig.

Arddangosyn 4: Dod yn gyngor sy'n perfformio'n dda

Mae'r Cyngor yn perfformio yn hanner uchaf cynghorau Cymru ar gyfer 16 o blith 19 o ddangosyddion.

| | 2008-09 Llinell sylfaen | 2009-10 | 2010-11 |
|---|---|---|---|
| **Islaw'r cyfartaledd** | 9 | 5 | 3 |
| **2il chwarter** | 1 | 2 | 3 |
| **Chwarter uchaf** | 9 | 12 | 13 |

*Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych*

53 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran perfformio'n well yn 2010-11 yn y meysydd a gynhwyswyd yn y *Cytundeb Canlyniadau* gyda Llywodraeth Cymru. Canmolodd y Gweinidog berfformiad cryf y Cyngor ac awdurdododd y taliad llawn o dan y cytundeb.

54 Mae Uned Ddata Llywodraeth Leol wedi nodi mai Sir Ddinbych a berfformiodd orau'n gyffredinol o blith yr awdurdodau lleol yng Nghymru yn erbyn grŵp mawr o 146 o ddangosyddion ar gyfer 2010-11.

**Mae trefniadau gwell yn cael eu datblygu er mwyn helpu'r Cyngor i ddod yn agosach at y gymuned**

55 Nid oedd nod y Cyngor o fod yn agos at y gymuned wedi'i ddiffinio cystal i ddechrau ac yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol* blaenorol gwnaethom dynnu sylw at yr angen i'r Cyngor gyfleu'n gliriach meini prawf llwyddiant ar gyfer cyflawni ei uchelgais o fod yn agos at y gymuned, ac egluro'r atebolrwydd a'r gwaith monitro ar gyfer y nod hwn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi rhoi'r cyfrifoldeb am y maes hwn i gyfarwyddwr corfforaethol. Mae wrthi'n datblygu mesurau llwyddiant ychwanegol ac mae wedi disgwyl i bob adran adolygu ei ddull gweithredu ei hun ac ymgorffori cynlluniau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau'n agosach mewn cynlluniau gwasanaeth. Bydd hefyd her i wneud cynnydd yn y gwaith hwn fel rhan o'r broses o adolygu gwasanaethau.

56 Bydd sawl datblygiad hefyd yn helpu i feithrin dull ymgysylltu'n agosach â chymunedau gan gynnwys gwaith ar gynlluniau trefi lleol, gwaith Grwpiau Ardal Aelodau a gwaith ymgynghori ac ymgysylltu ehangach ar y gyllideb a gweithgareddau eraill.

57 Mae plant a phobl ifanc yn rhan o'r gymuned a wasanaethir gan y Cyngor. Yn yr *Adroddiad Gwella Blynyddol* blaenorol awgrymodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai'r Cyngor gynnwys plant a phobl ifanc yn ei waith ymgynghori ac ymgysylltu lle y bo'n briodol. Nid yw'r Cyngor wedi cynnwys pobl ifanc yn Arolwg Trigolion 2011 ond mae wedi cynllunio amrywiaeth o gamau gweithredu eraill gan gynnwys taflenni a chasglu gwybodaeth ar-lein a grwpiau ffocws gyda chynghorau myfyrwyr mewn ysgolion a Chyngor Ieuenctid Sir Ddinbych. Bwriedir i'r camau hyn helpu i lywio blaenoriaethau'r dyfodol. Gwnaed gwaith ymgynghori ac ymgysylltu helaeth gyda phobl ifanc wrth lunio *Cynllun MAWR 2011-2014*, sef y cynllun cymunedol a strategol integredig a ddatblygwyd gyda phartneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

## Mae'r Cyngor yn addasu'r modd y darperir gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion nifer gynyddol o bobl hŷn a phobl anabl ac mae'n dechrau mynd i'r afael â'r agenda newid demograffig ehangach

58 Roedd *Cynllun Corfforaethol 2009-2012* y Cyngor yn cynnwys yr amcan i addasu'r modd y darperir gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael â newidiadau demograffig. Nododd fod poblogaeth Sir Ddinbych yn tyfu tua 1,000 o bobl bob blwyddyn a'i bod yn heneiddio. Dywedodd fod angen denu pobl ifanc ac annog pobl ifanc Sir Ddinbych i greu dyfodol yn y sir fel y gellid cyflawni poblogaeth fwy cytbwys dros amser. Byddai hyn yn gofyn am foderneiddio addysg, sicrhau bod tai addas ar gael a defnyddio'r *Cynllun Datblygu Lleol* i amlinellu'r seilwaith angenrheidiol yn y dyfodol ar gyfer meysydd

preswyl, busnes a gwasanaeth yn y sir. Fodd bynnag, byddai'r blaenoriaethau cychwynnol yn canolbwyntio ar y canlynol:

- annibyniaeth a dewis i bobl hŷn – gall pobl hŷn fyw'n annibynnol am fwy o amser;
- annibyniaeth a dewis i bobl ag anableddau dysgu;
- lles cymunedol drwy fentrau i bobl hŷn a phobl anabl.

59 Gwelsom fod y Cyngor yn addasu'r modd y darperir gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion nifer gynyddol o bobl hŷn a phobl anabl, ac mae'n dechrau mynd i'r afael â'r agenda newid demograffig ehangach.

**Mae trefniadau i helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn cael eu gwella**

60 Mae'r gwaith o asesu p'un a all pobl hŷn fyw'n annibynnol am fwy o amser yn anodd yn ei hanfod, ac ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor y wybodaeth sydd ei hangen i wneud y fath asesiad. Nid yw rhai o'r dangosyddion perfformiad presennol yn darparu'r dystiolaeth sydd ei hangen o ran canlyniadau gwell. Fodd bynnag, mae wedi nodi amrywiaeth o gamau gweithredu sydd o gymorth i fyw'n annibynnol sy'n cynnwys rhoi mwy o gymorth i'r rheini sydd wedi cwympo, cael triniaeth mewn ysbyty neu sefyllfaoedd eraill drwy wasanaethau ailalluogi, gwella'r opsiynau o ran tai â chymorth drwy 'dai gofal ychwanegol' ac adolygu gwasanaethau i'r rheini mewn tai lloches, a defnyddio teleofal yn fwy.

61 Ymhlith y newidiadau eraill i wasanaethau mae datblygu timau ardal iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi'u cydleoli, ymdrin ag achosion o oedi mewn perthynas ag asesiadau therapi galwedigaethol, a rhoi mwy o gymorth i ofalwyr sydd hefyd yn anelu at wella'r cymorth a roddir i bobl hŷn er mwyn iddynt barhau'n annibynnol. Gwnaeth y Cyngor gynnydd da yn y rhan fwyaf o'i waith arfaethedig yn 2010-11. Nododd adolygiad AGGCC[1] fod gwaith asesu amlddisgyblaethol wedi'i ymgorffori'n dda yn y Gwasanaeth Ymateb ac Adsefydlu, y Gwasanaeth Gofal Lefel Uwch yn y Cartref ac mewn timau ardal ac mai nod hyn yw darparu ymateb di-dor, cydgysylltiedig ac amserol i anghenion pobl.

**Gwneir cynnydd o ran helpu pobl ag anableddau dysgu i fod yn annibynnol**

62 Mae'r Cyngor wedi cynyddu nifer a chyfradd yr oedolion ag anableddau dysgu a gaiff gymorth yn y gymuned a bu rhywfaint o leihad yn nifer a chyfradd y rheini a gaiff gymorth mewn cartrefi gofal. Ymhlith y datblygiadau sydd wedi helpu i sicrhau'r cynnydd hwn mae:

- gwaith cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn perthynas ag oedolion ag anableddau dysgu;
- datblygu prosiect *Byw'n Annibynnol â Chymorth Dwys* newydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu sydd ag anghenion cymhleth iawn;
- mwy o gyfleoedd am brofiad gwaith a gwaith â thâl;
- trefniadau ar gyfer cyllidebau unigol a chymorth hunangyfeiriedig.

1 Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol 2010-11 AGGCC. Ailargraffwyd crynodeb ym mharagraff 98 o'r adroddiad hwn. Mae adolygiad llawn AGGCC ar gael yn: http://wales.gov.uk/docs/cssiw/publications/LA_evaluation1011/111028denbighcy.pdf

63 Er bod rhai o'r datblygiadau hyn yn rhai newydd, heb eu datblygu'n llawn neu heb gyrraedd eu potensial llawn eto, mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran ei nod i helpu pobl ag anableddau dysgu i fyw'n annibynnol.

**Mae cynnydd yn cael ei wneud o ran y cynlluniau i gefnogi lles yn y gymuned**

64 Mae'r Cyngor yn cynyddu faint o gyfleusterau cymunedol sydd ar gael i ddiwallu anghenion poblogaeth fwyfwy hŷn ac anabl. Sefydlwyd chwe gweithgaredd gwahanol yn 2010-11 gan gynnwys grwpiau cerdded Llychlynaidd ym Mhrestatyn a Dinbych, a'r rhaglen *Awch am fywyd (Fy Mywyd i Fy Ffordd i)* mewn tri lleoliad gyda chynlluniau ar y gweill ar gyfer pedair tref arall.

65 Ymhlith y gweithgareddau eraill drwy'r Gwasanaeth Hamdden mae sesiynau nofio am ddim i bobl dros 60 oed, erobeg dŵr a gweithgareddau eraill sydd wedi'u cynllunio i gynyddu'r lefel o weithgarwch corfforol. Mae rhai o'r cynlluniau ar raddfa fach ac newydd eu sefydlu ond mae'r rhan fwyaf wedi cynnwys pobl hŷn yn y gwaith o gynllunio a darparu'r gwasanaethau ac maent yn ymateb i anghenion lleol a dyheadau.

66 Nododd adolygiad a gwerthusiad AGGCC, er bod y Cyngor yn hyderus y gall gyfeirio pobl at amrywiaeth o wasanaethau, nad oes ganddo ffordd gadarn o bennu a yw'r system gyfeirio'n effeithiol o ran diwallu anghenion pobl. O ganlyniad, ni all werthuso perfformiad yn llawn na'i ddefnyddio i lywio'r gwaith o gynllunio gallu ac adnoddau yn y dyfodol.

**Mae'r Cyngor bellach wedi datblygu fframwaith i gydgysylltu a monitro gweithgareddau i helpu i gyflawni poblogaeth fwy cytbwys**

67 Y 'Bwrdd Pobl a Lleoedd' yw'r corff sy'n goruchwylio'r gwaith ar amcanion y Cyngor i fynd i'r afael â newid demograffig a chefnogi gwaith adfywio. Ar gyfer 2011-12, mae'r Bwrdd wedi diwygio ei strwythurau a chyflwyno ffrwd waith ar gyflawni poblogaeth fwy cytbwys. Yn dilyn trafodaeth ofalus, mae wedi penderfynu mai 'cadw mwy o bobl ifanc/teuluoedd yn Sir Ddinbych neu eu denu i'r ardal. Caiff gweithwyr hŷn eu cynorthwyo i barhau'n weithgar yn economaidd a diwallu anghenion y gymuned' fydd y canlyniad bwriadedig. Mae set o fesurau llwyddiant a rhaglen waith yn cael eu datblygu. Ymhlith y prosiectau mae: datblygu interniaethau, lleoliadau profiad gwaith a phrentisiaethau; darparu mwy o dai fforddiadwy; a mesurau adborth gan oedolion ifanc mewn arolygon trigolion.

68 Mae'r Bwrdd yn cydnabod y cyswllt rhwng cyflawni poblogaeth fwy cytbwys ac effaith ystod lawer ehangach o strategaethau a phryderon. Ymhlith y rhain mae ansawdd addysg, addysg bellach, darpariaeth iechyd, ac effeithiolrwydd strategaethau i adfywio'r economi er mwyn creu gwaith. Bydd y *Cynllun Datblygu Lleol* hefyd yn adnodd pwysig o ran cefnogi'r amcan. Nodwyd gennym fod rhai cynghorwyr o'r farn y gall fod gormod o bwyslais ar fynd i'r afael â'r materion sy'n codi o'r boblogaeth sy'n heneiddio sy'n cael mwy o flaenoriaeth na helpu ac annog y boblogaeth iau i aros yn yr ardal neu symud iddi. Bydd y camau a gymerir gan y Bwrdd Pobl a Lleoedd yn darparu fframwaith i gynnal a monitro gwaith i gefnogi'r broses o gyflawni poblogaeth fwy

cytbwys er ei bod yn rhy gynnar i asesu effaith y gwaith hwn.

69 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu ei *Gynllun Datblygu Lleol*. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi dwy flaenoriaeth allweddol - mynd i'r afael â newidiadau demograffig a chefnogi'r gwaith parhaus o adfywio'r Rhyl. Mae wedi bod yn hynod ddadleuol ac fe'i cymeradwywyd i'w gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio ar bleidlais fwrw Cadeirydd y Cyngor. Mae yna gamau pellach cyn i'r cynllun gael ei fabwysiadu'n derfynol. Ar hyn o bryd, mae'r *Cynllun Datblygu Lleol* yn fframwaith sylfaenol defnyddiol y gall y Cyngor ei ddefnyddio i ddatblygu ymhellach ei strategaeth adfywio ac ymgorffori camau gweithredu i fynd i'r afael â newidiadau demograffig. Mae'n rhagweld datblygiad tai mawr ym Modelwyddan fel rhan o'r cynlluniau i ddarparu tai ychwanegol yn y sir a chadw a denu trigolion.

## Mae cynnydd yn cael ei wneud i gefnogi gwaith adfywio yn y Rhyl ac o ran economi'r sir ond mae angen gwneud rhagor o waith i asesu faint o weithgarwch ac adnoddau sydd eu hangen i gyflawni amcanion y Cyngor

70 Mae amcan gwella'r Cyngor ar gyfer 'adfywio ein cymunedau' yn cynnwys tri chanlyniad bwriadedig:

- lleihau amddifadedd economaidd-gymdeithasol drwy waith targedu strategol;
- cefnogi twf economaidd cynaliadwy;
- lleihau'r dirywiad yn yr economi wledig.

71 Yn ôl asesiad y Cyngor ei hun yn ei *Adolygiad Perfformiad Blynyddol*, yn ystod 2010-11 mae wedi bod yn rhannol lwyddiannus o ran maes un a dau ac yn llwyddiannus o ran maes canlyniad tri.

72 Gwelsom fod cynnydd yn cael ei wneud i gefnogi gwaith adfywio yn y Rhyl ac o ran economi'r sir ond mae angen gwneud rhagor o waith i asesu faint o weithgarwch ac adnoddau sydd eu hangen i gyflawni amcanion y Cyngor.

**Mae mwy o ffocws ac arweinyddiaeth ar gael i fynd i'r afael ag adfywio'r Rhyl ond nid yw'n glir eto p'un a fydd gan y Cyngor ddigon o allu, adnoddau ac ymrwymiad i gyflawni'r uchelgeisiau y mae'n eu rhannu â phartneriaid ar gyfer y dref**

73 Mae'r Cyngor yn ceisio gostwng y lefelau uchel o amddifadedd a welir yn rhan ogleddol y llain arfordirol - yn enwedig mewn rhannau o'r Rhyl. Mae'r amcan hwn hefyd wedi'i adlewyrchu ym mlaenoriaeth y *Cynllun MAWR* sef bod pobl a lleoedd yn y Rhyl yn cael budd o waith adfywio. Noda *Adolygiad Perfformiad Blynyddol* y Cyngor ei fod wedi cyflawni ei dargedau a chymryd ei gamau gweithredu ar gyfer 2010-11 mewn perthynas â lleihau difrod troseddol, lleihau nifer y bobl mewn tlodi, parhau i gefnogi nifer o brosiectau (gan gynnwys y cynlluniau ar gyfer pont newydd a gwelliannau i'r harbwr yn Harbwr y Foryd a'r gwaith adnewyddu a gwblhawyd yn ddiweddar ar safle Sinema Apollo), a sicrhau bod mwy o bobl yn cael y budd-daliadau a'r credydau treth sy'n ddyledus iddynt. Mae'r Cyngor hefyd wedi gwneud cynnydd da o ran cynnig mwy o gyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol a phrofiad gwaith yn y Rhyl, ac mae hyn wedi cyfrannu at well cyfraddau datblygu ymhlith pobl ifanc 16 a 17 oed.

74 Mae'r Cyngor wedi bod yn llai llwyddiannus o ran trwyddedu tai amlfeddiannaeth ac mae bellach yn credu bod ei darged o drwyddedu 50 o dai y flwyddyn yn rhy uchelgeisiol felly mae wedi ei leihau i 30 ar gyfer 2011-12. Nid yw'r Cyngor ychwaith wedi cyflawni ei nod o leihau nifer y bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn y Rhyl o gymharu â mannau eraill yn Sir Ddinbych. Bydd y problemau cyffredinol yn yr economi wedi effeithio ar nifer yr hawlwyr.

75 Mae'r dasg o adfywio'r Rhyl yn un anodd a phrin yw dylanwad y Cyngor. Mae angen cryn dipyn o fuddsoddiad cyfalaf ynghyd â gwella a datblygu prif atyniadau a safleoedd. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau dros £9 miliwn o arian cyfalaf gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer y gwaith o ddatblygu Harbwr y Foryd gan gynnwys llwybr beicio a throed newydd. Fodd bynnag, mae'r costau disgwyliedig wedi cynyddu ac mae'r Cyngor wedi cytuno i gynyddu ei gyfraniad ei hun hyd at £1 filiwn. Nid yw rhai o'r camau strategol a gymerir gan y Cyngor, megis delio â thai amlfeddiannaeth, yn cael eu derbyn yn llawn gan rai partneriaid.

76 Yn ystod 2010, datblygodd ymgynghorwyr *Fframwaith Adfywio Strategol* ar gyfer y Rhyl yn cynnwys y themâu canlynol: 'economi a sgiliau', 'pobl a chymunedau' a 'cymdogaethau a lleoedd'.

77 Ailbennwyd atebolrwydd rheolwyr dros yr amcan adfywio ym mis Ionawr 2011 yn dilyn y broses o ailstrwythuro'r haen uwch reoli. Gwelsom fod y newid hwn wedi arwain at fwy o gymhelliant a ffocws i'r gwaith yn y Rhyl. Mae rhywfaint o'r cymhelliant hwn wedi canolbwyntio ar y cynllun cyflenwi *Y Rhyl yn Symud Ymlaen* sy'n dwyn ynghyd yr elfennau gwahanol o waith presennol yn fframwaith cliriach a mwy penodol.

78 Mae'r cynllun *Y Rhyl yn Symud Ymlaen* yn canolbwyntio ar wella 'cymdogaethau a lleoedd' yn hytrach na gweithredu ar sail 'economi a sgiliau' neu 'pobl a chymunedau'. Mae'r ffocws hwn yn rhannol adlewyrchu'r agweddau y mae'r Cyngor am eu blaenoriaethu o ystyried ei adnoddau prin ac mae'n cydnabod yn rhannol fod gan gyrff a phartneriaethau eraill, megis Cwmni Cymuned Strategaeth Dinas y Rhyl, ran arweiniol i'w chwarae yn yr agweddau eraill.

79 Hyd yn hyn, nid aseswyd yn llawn faint o adnoddau sydd eu hangen gan y Cyngor, a ffynonellau eraill, i gyflawni'r holl newidiadau sydd eu hangen. Mae rhywfaint o gynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud gyda rhai cwmnïau yn y sector preifat ond mae Tîm Adfywio'r Cyngor yn cydnabod bod angen i'r Cyngor fod yn fwy rhagweithiol er mwyn casglu gwybodaeth am farchnadoedd a datblygwyr allweddol a datblygu gweledigaeth neu hunaniaeth gyffredinol ar gyfer y Rhyl. Mae angen iddynt hefyd wella sgiliau negodi â datblygwyr preifat er mwyn denu buddsoddiad. Mae hyn yn wendid mawr yn amcan adfywio'r Cyngor ar hyn o bryd. Nid yw eto'n glir a all y Cyngor ddarparu digon o staff a chyllid i gydweithio ag eraill yn llwyddiannus er mwyn cyflawni ei nodau adfywio.

80 Nid yw cynghorwyr o rannau eraill o'r sir sy'n poeni'n fwy am 'gynlluniau trefi' lleol yn derbyn yn awtomatig fod y gwaith yn y Rhyl yn flaenoriaeth uchel. Mae'r Cyngor yn bwriadu nodi'r ffrydiau gwaith adfywio gwahanol yn gliriach mewn strategaeth adfywio newydd ar gyfer Sir Ddinbych yn y misoedd i ddod. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod bod angen nodi'n glir pa gymorth sydd ei angen gan ei holl wasanaethau i gyfrannu at y broses o weithredu'r strategaeth, yn enwedig adfywio'r Rhyl.

81 Mae cynllun cyflenwi *Y Rhyl yn Symud Ymlaen* yn nodi sefydlu grŵp cydgysylltu ac Adolygu amlasiantaethol er mwyn sicrhau bod gwaith datblygu yn cael ei integreiddio a'i gydgysylltu yn y tair thema strategol. Bwriedir i'r grŵp hwn lunio adroddiad blynyddol ar gynnydd a chadw llygad ar anghenion a chyfleoedd newidiol.

82 Mae'r Cyngor wedi gwneud cryn ymrwymiad i adfywio'r Rhyl ond nid yw eto wedi meithrin dealltwriaeth glir o'r gofynion ariannol a staffio sydd eu hangen er mwyn cefnogi'r rhaglen a sut y caiff llwyddiant ei fesur. Byddai'n ddefnyddiol petai datganiad am fwriadau'r Cyngor o ran adnoddau a gwaith monitro yn cael ei lunio er mwyn cefnogi cynllun cyflenwi *Y Rhyl yn Symud Ymlaen*.

**Mae'r Cyngor wedi cymryd llawer o gamau i gefnogi economi'r sir er bod rhai ohonynt yn fentrau ar raddfa fach**

83 Gosododd y Cyngor amrywiaeth o gamau gweithredu iddo'i hun i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r economi a lleihau'r dirywiad yn yr economi wledig ac mae llawer o'r rhain wedi bod yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae rhai yn fentrau ar raddfa fach ac er eu bod yn bwysig efallai na chânt effaith fawr.

84 Cyflawnodd y Cyngor ei darged o leihau'r gymhareb o ran prisiau tai i enillion cyfartalog ond efallai mai dim ond adlewyrchu'r problemau economaidd sy'n arwain at brisiau tai is a wna'r canlyniad hwn. Ni chyflawnwyd y targed i leihau nifer y bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith o gymharu â Chymru, ond mae'r dangosydd hwn wedi amrywio ac efallai nad yw'n adlewyrchu effeithiolrwydd gwaith y Cyngor o ran cefnogi twf yn yr economi.

85 Cyflawnodd y Cyngor ei dargedau i leihau'r dirywiad yn yr economi wledig gan gynnwys rhagori ar dargedau i gefnogi busnesau gwledig micro a swyddi a gaiff eu creu mewn busnesau o'r fath.

86 Ymhlith y datblygiadau mwy diweddar mae gwaith gan Grwpiau Ardal Aelodau i ymdrin â materion yr ystyrir eu bod yn effeithio ar yr economi leol mewn rhai trefi - er enghraifft, lleihau costau parcio yn Rhuthun.

## Dywed y Cyngor fod cynnydd yn cael ei wneud i foderneiddio'r gwasanaeth addysg. Caiff perfformiad y Cyngor ei adolygu mewn arolygiad gan Estyn ar ddechrau 2012

87 Amcan y Cyngor yw moderneiddio'r gwasanaeth addysg er mwyn sicrhau bod y sir cyfan yn perfformio'n dda. Ei nod yw gweld Sir Ddinbych yn y 10 awdurdod gorau yng Nghymru am berfformiad cyfnod allweddol. Roedd cynlluniau'r Cyngor yn cynnwys amrywiaeth o gamau ac yn eu plith roedd adolygu darpariaeth ysgolion cynradd mewn rhai ardaloedd, gwella cyfleusterau ysgolion, a sicrhau bod hunanasesiadau ysgolion yn gyson.

88 Dywed y Cyngor fod cynnydd yn cael ei wneud i foderneiddio'r gwasanaeth addysg. Caiff perfformiad y Cyngor ei adolygu mewn arolygiad gan Estyn ar ddechrau 2012.

**Sylwadau Estyn ar berfformiad diweddar**

89 Bydd Estyn yn mynd ati i arolygu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc ar ddechrau 2012 a bydd yn asesu perfformiad y Cyngor ym mhob maes sy'n ymwneud â gwasanaethau addysg statudol.

90 Mae Estyn wedi gwneud y sylwadau canlynol ar berfformiad diweddar:

- ‘Pan ystyrir ystod o wybodaeth gyd-destunol, mae perfformiad disgyblion yn Sir Ddinbych yn uwch na'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 2 ond yn is na'r cyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 1 a 3. Yng nghyfnod allweddol 3, mae hanner yr ysgolion uwchradd yn y 25 y cant isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Nid oes unrhyw ysgolion yn y 25 y cant uchaf. Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer pob mesur namyn un.
- Mae perfformiad yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, yn seiliedig ar yr hawl i gael prydau ysgol am ddim, wedi methu â chyrraedd bron pob un o feincnodau Llywodraeth Cymru yn y pedair blynedd hyd at 2010. Nid oes gwybodaeth feincnodi ar gyfer 2011 ar gael eto.
- Pan ystyrir gwybodaeth gyd-destunol, mae cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd. Mae nifer y gwaharddiadau parhaol o ysgolion wedi lleihau'n sylweddol. Fodd bynnag, mae nifer y gwaharddiadau sy'n bum diwrnod neu lai ymhlith y gwaethaf yng Nghymru.’

**Mae'r Cyngor wedi nodi bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at ei amcan o foderneiddio addysg**

91 Dywed y Cyngor ei fod wedi cymryd amrywiaeth o gamau bwriadol yn llwyddiannus gan gynnwys:

- gwneud cynnydd o ran ad-drefnu ysgolion cynradd yn ardaloedd Prestatyn ac Edeymion;
- nodwyd nifer o fentrau cydweithio rhanbarthol i'w datblygu er mwyn cefnogi'r *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion*;
- cwblhawyd adolygiad o drefniadau'r Cyfnod Sylfaen, nodwyd arfer da a gwnaed newidiadau i arferion staff addysgu.

92 Mae cyrhaeddiad disgyblion wedi gwella ar y cyfan yn ystod cyfnod y cynllun corfforaethol ond nid yw'n gyson ym mhob cam allweddol ac, mewn rhai achosion, ni fu mor gyflym â'r gwelliant cyfartalog yng Nghymru - gweler Arddangosyn 5.

Arddangosyn 5: Cyrhaeddiad disgyblion mewn cyfnodau allweddol

Mae cyrhaeddiad disgyblion wedi gwella ond nid yw yn y 10 awdurdod gorau yng Nghymru ym mhob cyfnod allweddol.

| Dangosyddion llwyddiant | Gwirioneddol 2009-10 | Gwirioneddol 2010-11 | Gwirioneddol 2011-12 | Safle yng Nghymru | 10 Uchaf? |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynyddu canran y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd yng nghyfnod allweddol 1 (7 oed) | 83.2 | 82.4 | 79.8 | 18 | x |
| Cynyddu canran y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd yng nghyfnod allweddol 2 (11 oed) | 76.8 | 78.1 | 82.3 | 5= | ✓ |
| Cynyddu canran y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd yng nghyfnod allweddol 3 (14 oed) | 59.8 | 63.9 | 65.5 | 17 | x |
| Cynyddu canran y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd yng nghyfnod allweddol 4 (16 oed) | 46.1 | 43.3 | 51.3 | 8 | ✓ |
| Cynyddu canran y disgyblion sy'n cyflawni 5 A* i C (trothwy 2) yn 16 oed | 55.9 | 59.2 | 71.4 | 5= | ✓ |

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

## Mae'r rhaglen gyfalaf i wella ffyrdd ac amddiffynfeydd llifogydd yn cael ei chyflawni ac mae rhagor o waith mawr ar y gweill

93 Pedwaredd blaenoriaeth Sir Ddinbych yw sicrhau rhwydwaith ffyrdd ac amddiffynfeydd llifogydd cynaliadwy. Yn ei *Adroddiad Gwella Blynyddol* blaenorol, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai'r Cyngor bennu mesurau canlyniadau cliriach ar gyfer gwella ffyrdd ac amddiffynfeydd llifogydd. Mae'r Cyngor wedi derbyn bod ei fesurau'n rhy cul ac mae wedi cyflwyno amrywiaeth o fesurau ychwanegol ar gyfer 2011-12. Mae'r rhain yn darparu mesurau i asesu diogelwch ffyrdd ac amodau ffyrdd lleol.

94 Nodwyd gennym fod y rhaglen gyfalaf i wella ffyrdd ac amddiffynfeydd llifogydd yn cael ei chyflawni, a bod rhagor o waith mawr ar y gweill.

**Defnyddir arian ychwanegol i wella cyflwr ffyrdd a gwneir cynnydd mewn perthynas â diogelwch ffyrdd a rheoli rhwydweithiau**

95 Mae'r Cyngor wedi nodi na lwyddodd i gyflawni ei dargedau ar gyfer gwella cyflwr ffyrdd yn 2010-11 ac mae'r duedd o ddirywiad yng nghyflwr ffyrdd yn parhau. Fodd bynnag, nid yw'r broses ddata a ddefnyddir i ddarparu'r wybodaeth ar gyfer y targed yn cynnwys yn llawn ffyrdd diddosbarth a ffyrdd 'c' ac mae oedi hefyd o ran casglu data. Felly, mae'r data yn darparu data anghyflawn o'r

gwaith a wnaed. Gwariodd y Cyngor tua £6.9 miliwn ar briffyrdd a chwblhaodd ei raglen cynnal a chadw gyfalaf arfaethedig. Cyfrannodd pryderon y cyhoedd ynghylch cyflwr ffyrdd ac ymwybyddiaeth o berfformiad y Cyngor at benderfyniad y Cyngor i nodi arian ychwanegol ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd yn 2011-12. Defnyddiwyd rhan o'r £1.5 miliwn a nodwyd ar gyfer buddsoddi ym mlaenoriaethau'r cyngor i alluogi benthyciad darbodus o tua £7 miliwn ar gyfer gwaith priffyrdd mawr. Prynwyd cyfarpar newydd hefyd. Datblygwyd dangosyddion newydd i ddarparu gwybodaeth fwy cynhwysfawr am gyflwr y rhwydwaith ffyrdd yn y sir.

96 Mae diogelwch ffyrdd, sef un o'r rhesymau dros eu cadw mewn cyflwr da, bellach yn cael ei fonitro gan y Cyngor drwy fesurau i wrthsefyll sgidio, damweiniau fesul cilomedr, y defnydd o hyfforddiant beicio a diogelwch, a hawliadau yswiriant.

97 Agwedd arall ar wella ffyrdd a phriffyrdd yw'r cyfraniad a wneir gan oleuadau stryd, ymateb i droseddau a'r angen i wneud gwaith atgyweirio. Mae'r Cyngor yn perfformio'n dda yn y meysydd hyn ac enillodd tîm goleuadau stryd Sir Ddinbych y wobr am y Tîm Gwasanaeth Gorau: Priffyrdd, Cynnal a Chadw yn ystod y Gaeaf a Goleuadau Stryd gan y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus. Tîm ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yw hwn.

98 Mae'r gwasanaeth Priffyrdd a Seilwaith yn wasanaeth a reolir ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyda thimau ac elfennau o'r gwasanaeth yn dod yn fwyfwy integredig. Mae gwasanaethau archwilio mewnol y ddau gyngor yn bwriadu cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau partneriaeth hyn yn 2012.

**Mae'r Cyngor yn lleihau'r risg i eiddo drwy gynlluniau lliniaru llifogydd mewn sawl tref**

99 Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n bennaf cyfrifol am amddiffynfeydd llifogydd ond mae gan gynghorau ran allweddol i'w chwarae yn y gwaith o ddiogelu eu cymunedau. Amcan y Cyngor yw lleihau nifer yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd. Yn ei hadroddiad, *Llifogydd yng Nghymru: Asesiad bygythiad llifogydd cenedlaethol*, Medi 2011 dywed Asiantaeth yr Amgylchedd fod 3,000 o eiddo yn Sir Ddinbych mewn perygl mawr o lifogydd a bod tua 14,000 pellach mewn perygl cymedrol neu isel. Mae'r Cyngor yn anelu at leihau'r perygl o lifogydd ar gyfer 1,575 o eiddo risg uchel yn ystod 2009-2012 yn bennaf drwy gwblhau cynlluniau amddiffynfeydd llifogydd yn Llangollen, Dinbych, Corwen a Gorllewin y Rhyl. Ariennir y cynlluniau drwy grantiau'r llywodraeth yn bennaf. Mae cynlluniau Llangollen a Dinbych wedi cael eu cwblhau er bod cynllun Dinbych yn hwyrach na'r disgwyl o ganlyniad i anawsterau gyda thir wedi'i halogi ac amodau twnelu gwael. Mae'r cynlluniau hyn wedi lleihau'r perygl o lifogydd yn achos 995 o eiddo.

100 Gohiriwyd cynllun Corwen yn dilyn newidiadau i'r cynlluniau ac oedi o ran cymeradwyo grantiau. Fodd bynnag, mae gwaith wedi dechrau ar gynllun amddiffynfeydd llifogydd Gorllewin y Rhyl.

101 Mae'r Cyngor wedi cyflwyno mesur perfformiad newydd ar gyfer canran yr eiddo sy'n wynebu perygl mawr o lifogydd lle mae'r perygl wedi lleihau - mae'r mesur hwn yn awgrymu bod y 995 o eiddo sydd wedi elwa hyd yn hyn yn cyfateb i tua 7 y cant o'r eiddo sydd mewn perygl mawr.

102 Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd o ran lleihau'r perygl o lifogydd er nad yw'r cynllun gwella na dogfennau eraill yn nodi i ba raddau y ceisir lleihau'r perygl dros gyfnod hwy.

## Mae'r Cyngor yn darparu gwell gwasanaethau gofal cymdeithasol, tai a rheoli gwastraff i drigolion ond gellir gwneud rhagor o welliannau

103 Gwnaethom hefyd ystyried cynnydd y Cyngor mewn meysydd gwasanaeth eraill. Nodwyd gennym fod y Cyngor yn darparu gwell gwasanaethau gofal cymdeithasol, tai a rheoli gwastraff i drigolion ond gellir gwneud rhagor o welliannau.

**Gwnaed gwelliannau i agweddau ar wasanaethau cymdeithasol i oedolion a phlant ond gellir gwneud rhagor o welliannau**

104 Ym mis Hydref 2011, cyflwynodd AGGCC lythyr i'r Cyngor mewn ymateb i Adroddiad Cyfarwyddwyr y Cyngor ar gyfer 2010-11. Gwnaeth AGGCC grynhoi ei gwerthusiad fel a ganlyn:

- Mae gan Gyngor Sir Ddinbych weledigaeth i ddod yn gyngor sy'n perfformio'n dda ac sy'n agos at y gymuned. Mae datblygiadau mewn gwasanaethau cymdeithasol, megis cyflwyno model tîm ardal ar gyfer gwasanaethau i oedolion ac ystod eang o weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu mewn perthynas â gwasanaethau i oedolion a phlant yn cefnogi uchelgais y Cyngor i wneud gwasanaethau yn fwy hygyrch i bob dinesydd lleol. Mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y gweithgarwch ymgysylltu ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- Ailstrwythurwyd gwasanaethau i oedolion a phlant yn ystod 2010-11 a chyflwynwyd modelau newydd o ddarpariaeth ac ymyrraeth. Un o flaenoriaethau'r Cyngor yw defnyddio data perfformiad a gwybodaeth reoli i werthuso effeithiolrwydd y newidiadau.
- Gwnaed cynnydd yn y rhan fwyaf o'r meysydd datblygu a nodwyd y llynedd ond erys dau faes penodol mewn gwasanaethau i blant sef y gyfradd atgyfeirio a chynnal ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal lle na welwyd digon o welliant. Mae angen i'r Cyngor barhau i ganolbwyntio ar wneud mwy o gynnydd. Mae hefyd angen i'r Cyngor ddangos bod ei drefniadau i adolygu plant mewn gofal yn effeithiol a bod anghenion plant yn cael eu diwallu.

**Bu gwelliannau i drefniadau diogelu a gwasanaethau plant**

105 Mae *Adolygiad Perfformiad Blynyddol* y Cyngor yn cynnwys adran ar 'diogelu ac amddiffyn plant'. Noda'r adroddiad hwn fod *Prosiect Atgyfeirio ac Asesu* wedi'i sefydlu i ymdrin â materion o ran perfformiad ar gyfer cynnal asesiadau cychwynnol a chraidd. Arweiniodd y prosiect hwn at well perfformiad yn y meysydd hyn ond, fel y nodwyd gan AGGCC, mae'r gyfradd atgyfeirio a'r broses o gynnal ymweliadau statudol yn feysydd lle na wnaed digon o welliant.

106 Mae'r Uned Diogelu ac Adolygu yn gyfrifol am reoli achosion amddiffyn plant ac mae'n perfformio'n dda o ran cynnal adolygiadau amserol o achosion. Fodd bynnag, noda AGGCC fod angen i'r gwaith o gynnal cynadleddau a chyfarfodydd amddiffyn plant cychwynnol gael eu gwella ymhellach.

107 Mae Sir Ddinbych a Chonwy yn rhannu Bwrdd Lleol Diogelu Plant ac mae ganddo fframwaith sicrwydd ansawdd bwrdd ar waith.

108 Nododd adolygiad AGGCC fod y Cyngor wedi darparu adnoddau ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) a bod arian wedi cyfrannu at wella'r broses o fonitro cynlluniau gweithredu POVA. Mae cynlluniau'n datblygu i integreiddio Pwyllgorau Amddiffyn Oedolion Sir Ddinbych a Chonwy.

**Mae gwasanaethau tai yn dda ar y cyfan ond mae angen i'r trefniadau ar gyfer darparu addasiadau wella**

109 Mae'r Cyngor yn dal i fod yn un o'r ychydig awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n disgwyl cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru ar gyfer ei stoc dai erbyn diwedd 2012. Hefyd, llwyddodd y Cyngor i gyflawni'r gyfradd uchaf namyn un ar gyfer darparu tai fforddiadwy fesul poblogaeth cartrefi yng Nghymru yn 2010-11 gyda chyfanswm o 154 o gartrefi yn cael eu cwblhau.

110 Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd boddhaol o ran cynlluniau gweithredu gwasanaethau tai ond mae ei berfformiad o ran darparu addasiadau gan ddefnyddio grantiau cyfleusterau i bobl anabl yn gwaethygu. At hynny, mae'r Cyngor wedi gorwario ei gyllideb ar gyfer gwariant ar y digartref ac nid oes ganddo unrhyw gynlluniau gweithredu i wella perfformiad.

111 Mae'r Cyngor yn parhau i reoli trefniadau ar gyfer budd-dal tai a budd-dal treth gyngor yn foddhaol. Caiff ceisiadau newydd a newidiadau mewn amgylchiadau eu gweinyddu'n gyflymach, ar gyfartaledd, na'r rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru a Lloegr gyda mwy o gywirdeb na'r cyfartaledd. Mae cost prosesu ceisiadau yn agos at y cyfartaledd ar gyfer Cymru ond ychydig yn is.

**Mae cyfraddau casglu gwastraff ac ailgylchu yn ardderchog er y bu costau cyffredinol yn uwch na'r cyfartaledd**

112 Mae'r Cyngor yn parhau i gyflawni cyfraddau ardderchog o ran casglu ac ailgylchu gwastraff, gyda 55.1 y cant o wastraff trefol yn cael ei baratoi i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu yn 2010-11 o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru sef 42.8 y cant. Fodd bynnag, mae cost gyffredinol darparu gwasanaethau gwastraff yn 2009-10, sef y flwyddyn ddiwethaf y mae data cymharol ar gael ar ei chyfer, yn uwch na'r cyfartaledd o gymharu ag awdurdodau lleol eraill.

## Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o hunanasesiadau a gwell systemau gwerthuso perfformiad i ddarparu a gwella gwasanaethau

113 Mae'r adran hon yn ystyried pa mor effeithiol y mae'r Cyngor yn deall ac yn rheoli ei gynnydd drwy'r defnydd effeithiol o wybodaeth, trefniadau rheoli perfformiad a hunanasesiadau. Nodwyd gennym fod y Cyngor yn gwneud defnydd da o hunanasesiadau a gwell systemau gwerthuso perfformiad i ddarparu a gwella gwasanaethau.

### Mae gan uwch swyddogion a chynghorwyr ddealltwriaeth dda o'u cynnydd ac mae prosesau hunanasesu yn datblygu'n dda ond nid yw hyn wedi'i adlewyrchu'n llawn yn yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol

114 Mae'n ofynnol i gynghorau gynnal hunanasesiadau drwy adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu, cyhoeddi'r adroddiad blynyddol ar berfformiad ac adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Rhaid cynnal hunanasesiadau eraill wrth baratoi ar gyfer arolygiadau rheoliadol, ac ar gais Gweinidogion. Mae gan yr uwch swyddogion a chynghorwyr ddealltwriaeth dda o berfformiad y Cyngor o ran ei amcanion allweddol a dealltwriaeth o'r hyn y mae'n ei wneud i wella ei ragolygon ar gyfer gwelliannau pellach.

115 Mae prosesau hunanasesu yn Sir Ddinbych yn datblygu'n dda. Cefnogir hyn gan y canlynol:

- bod yn rhan annatod o brosesau gwella'r Cyngor;
- ffocws cynyddol ar ganlyniadau i ddinasyddion, er nad oes mesurau canlyniadau effeithiol ar waith eto ar gyfer pob amcan;
- diwylliant agored lle y caiff gwendidau eu cydnabod ar y cyfan yn hytrach na'u gwadu a gweithredir arnynt heb ofn na bai gormodol;
- fframwaith cadarn ac esblygol sy'n cynnwys cyfarfodydd herio perfformiad ddwywaith y flwyddyn ar gyfer pob gwasanaeth a chyflwyno tystiolaeth mewn modd cytbwys;
- trefniadau llywodraethu da, gwell ymgysylltu â'r cyhoedd a gwaith effeithiol gyda chymheiriaid a'r gwasanaeth archwilio allanol, arolygiaethau a rheoleiddwyr.

116 Mae'r Cyngor hefyd wedi gwneud hunanasesu yn rhan annatod o'i drefniadau herio gwasanaethau ac yn fwy diweddar mae pob adran wedi cynnal hunanasesiad o'i threfniadau i fod yn agos at y gymuned. Mae asesiad diweddar gan y cyngor o effeithiolrwydd a gwerth am arian cyllid ychwanegol a roddir i ysgolion i wella cyrhaeddiad yn gyfraniad pellach at ei ddealltwriaeth o berfformiad a gwerth am arian.

117 Mae manwl gywirdeb yr hunanasesiadau a gynhelir gan y Cyngor yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, er bod adolygiad y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu a'r *Datganiad Llywodraethu Blynyddol* wedi darparu adolygiad trylwyr ynghylch a oedd trefniadau priodol ar waith, roedd y graddau yr aseswyd effeithiolrwydd rhai o'r trefniadau yn gyfyngedig.

118 Fodd bynnag, nid yw hunanddealltwriaeth y Cyngor o'i berfformiad cyffredinol bob amser wedi'i hadlewyrchu'n glir mewn dogfennau cyhoeddus. Mae *Adolygiad Perfformiad Blynydd*ol 2010-11 y Cyngor yn cynnwys

sylwebaeth ddefnyddiol helaeth ar berfformiad y Cyngor ac mae'n cyflawni cyfrifoldebau'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys datganiadau clir am y cynnydd cyffredinol a wnaed gan y Cyngor o dan bob amcan gwella.

119 Mae *Adroddiad Perfformiad Blynyddol* y Cyngor yn cynnwys:

- gwybodaeth am y trefniadau i asesu a herio perfformiad;
- tystiolaeth o berfformiad fel y'i mesurir gan ddangosyddion cenedlaethol a chwblhau camau gweithredu arfaethedig;
- cymharu yn erbyn cyfartaledd Cymru a chwarteli ar gyfer dangosyddion cenedlaethol;
- disgrifiad o gynnydd a chyflawniadau yn erbyn naw is-amcan o'r pedwar amcan gwella allblyg er bod rhai o'r rhain yn rhy gyfyngedig i wybodaeth am ddangosyddion perfformiad;
- crynodeb o'r datblygiadau ym maes diogelu ac amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion agored i niwed;
- gwybodaeth am effaith cymryd camau gweithredu i gefnogi ei flaenoriaethau ym mhob un o'r chwe ardal gymunedol yn Sir Ddinbych.

120 Fodd bynnag, ymhlith y gwendidau mae:

- diffyg datganiadau gwerthuso cyffredinol yn erbyn yr amcanion gwella, sy'n golygu bod yr adroddiad yn llai effeithiol ar y cyfan;
- ni ddefnyddir rhai ffynonellau tystiolaeth gan gynnwys rhai canfyddiadau o adolygiadau allanol a chymhariaethau â chynghorau perthnasol eraill yng Nghymru a thu hwnt.

121 Mae'r Cyngor wedi ceisio hyrwyddo'r adolygiad o berfformiad i bartneriaid a'r cyhoedd drwy strategaeth gyhoeddiadau. Mae hyn yn dangos ei ymrwymiad i ddod yn agos at y gymuned.

**Arfer Da**
**Hyrwyddo'r *Adolygiad Perfformiad Blynyddol***

Datblygodd y Cyngor strategaeth gyhoeddi yn cynnwys:

- rhoi'r adolygiad ar wefan y Cyngor;
- rhoi copïau caled o'r adroddiad ym mhob derbynfa, siop un stop a llyfrgell;
- dosbarthu'r adolygiad i bartneriaid/rhanddeiliaid;
- cyhoeddi datganiad i'r wasg yn crynhoi'r prif ganfyddiadau a dweud wrth bobl ble y gallant gael gafael ar yr adroddiad;
- hyrwyddo'r adroddiad drwy Twitter a Facebook.

## Mae rhai gwendidau o ran dibynadwyedd gwybodaeth am berfformiad er bod y Cyngor yn parhau i wella'r setiau o feini prawf llwyddiant a ddefnyddir

122 Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru archwiliad o'r data dangosyddion perfformiad ar gyfer y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a grŵp bach o ddangosyddion eraill. Nododd yr archwiliad fod ansawdd data'r cyngor yn foddhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, nodwyd pedwar dangosydd, tri DPCau ac un dangosydd lleol lle roedd angen i'r data diwedd blwyddyn gael ei ddiwygio. Ar gyfer un dangosydd, roedd ansicrwydd ynghylch y gwybodaeth alldro derfynol.

123 Er mwyn monitro a rheoli perfformiad mae angen sicrhau bod gwybodaeth gywir am berfformiad ar gael. Mae systemau adrodd y Cyngor yn foddhaol ar y cyfan ond nododd yr adroddiad monitro perfformiad ar gyfer chwarter cyntaf 2011-12 nifer o fesurau a dangosyddion newydd lle na sefydlwyd gwybodaeth sylfaenol a hefyd ddangosyddion a oedd yn peri problemau o ran ansawdd y data. Yn eu plith mae'r canlynol:

- nifer y defnyddwyr gwasanaeth ailalluogi nad oes angen gofal arnynt mwyach;
- cymryd rhan mewn sesiynau chwaraeon i bobl anabl;
- canran y cleientiaid 65 oed a throsodd a gaiff gymorth yn y gymuned;
- costau yswiriant fesul cilomedr o rwydwaith ffyrdd.

124 Bydd y problemau hyn o ran data yn gwneud y broses monitro perfformiad yn llai effeithiol yn ystod y flwyddyn.

# Atodiadau



# Atodiad 1
# Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad Gwella blynyddol, a chyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, i gyflwyno adroddiad sy'n tystio ei fod wedi cynnal Asesiad Gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr Asesiad Gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Ddinbych a Chyngor Sir Ddinbych

## Y Cyngor

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gwario tua £222 miliwn y flwyddyn (2011-12). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,281 fesul preswylydd. Yn 2010-11, gwariodd y Cyngor £38 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2010-11, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D oedd £1,232 y flwyddyn. Cynyddodd 3.06 y cant i £1,270 miliwn ar gyfer 2011-12. Mae 84 y cant o dai Sir Ddinbych yn y bandiau treth gyngor A i D.

Mae'r dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D yn cyfateb i'r chweched uchaf yng Nghymru er i'r cynnydd blynyddol a welwyd yn ddiweddar fod islaw'r cyfartaledd ac roedd lefel y dreth gyngor yn cyfateb i'r drydedd uchaf yn flaenorol yn 2008-09.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 47 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Y Cynghorydd Hugh H Evans OBE yw'r Arweinydd. Mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 18 o'r Blaid Geidwadol
- 10 Aelod Annibynnol
- 8 o Blaid Cymru
- 5 o'r Blaid Lafur
- 3 o'r Blaid Annibyniaeth yn Gyntaf
- 1 Democratiad Rhyddfrydol Cymru (Annibynnol)
- dau nad ydynt yn aelodau o unrhyw blaid

Dr Mohammed Mehmet yw Prif Weithredwr y Cyngor ac mae ei dîm rheoli yn cynnwys:

- Cyfarwyddwr Corfforaethol: Demograffeg, Lles a Chynllunio – Sally Ellis
- Cyfarwyddwr Corfforaethol: Trawsnewid ac Adfywio Busnes – Bethan Jones
- Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu a Chymunedau – Hywyn Williams

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Sir Ddinbych yw:

- Ann Jones, Dyffryn Clwyd, y Blaid Lafur
- Darren Millar, Gorllewin Clwyd, y Blaid Geidwadol
- Ken Skates, De Clwyd, y Blaid Lafur

Aelodau Rhanbarthol y Cynulliad:

- Llyr Huws Gruffydd, Plaid Cymru
- Mark Isherwood, Plaid Geidwadol Cymru
- Aled Roberts, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Antoinette Sandbach, Plaid Geidwadol Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Sir Ddinbych yw:

- Chris Ruane, Dyffryn Clwyd, y Blaid Lafur
- David Jones, Gorllewin Clwyd, y Blaid Geidwadol
- Susan Elan Jones, De Clwyd, y Blaid Lafur

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor yn www.sirddinbych.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN. Ffôn: 01824 706000.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Sir Ddinbych

Cyhoeddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol y llythyr archwilio canlynol ar 29 Tachwedd 2011.

**Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Sir Ddinbych**

Fel y gwyddoch, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol erbyn diwedd mis Ionawr 2012 a bydd rhai o'r materion a nodwyd yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig yn draddodiadol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi achub ar y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Penodedig yn y llythyr byr hwn, sy'n ffurfio'r Llythyr Archwilio Blynyddol. Bwriedir i'r llythyr fod yn ddogfen annibynnol, ond caiff ei gyflwyno hefyd i'r Cyngor a'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol ac felly mae'n cyflawni fy nghyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiadau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd Cyngor Sir Ddinbych â'r gofynion o ran cyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad ariannol a'i ddefnydd o adnoddau**

Cyfrifoldeb Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol;
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Ar 30 Medi 2011 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon.

Ers 2010-11 bu'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio eu cyfrifon ar sail Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Gosododd y safonau newydd hyn feichiau ychwanegol sylweddol ar staff cyllid y Cyngor. Un o ganlyniadau'r beichiau hyn oedd i'r cyfrifon ddod i law dridiau ar ôl y terfyn amser statudol. Fodd bynnag, ar ôl iddynt ddod i law, roedd y cyfrifon a'r papurau gwaith cysylltiedig yn cyrraedd safon dda gan ddangos bod staff y tîm cyllid wedi gwneud cryn dipyn o waith i'w paratoi ar sail IFRS am y tro cyntaf.

Rhoddwyd gwybod i aelodau am faterion a gododd wrth archwilio'r cyfrifon yn fy adroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a chaiff rhagor o fanylion eu cynnwys yn ein hadroddiad Memorandwm Cyfrifon Ariannol manwl a gyhoeddir maes o law.

Mae fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol (2009). Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol, ond yn ein llythyr ar 1 Mehefin 2011, gwnaethom dynnu sylw'r Prif Weithredwr at y canlynol:

- Mae'r Cyngor mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â'i heriau ariannol, ond mae graddau'r newid sydd ei angen yn golygu y bydd angen arweiniad a chyfeiriad clir parhaus. Mae'r Cyngor yn cymryd camau priodol i roi cynllun ariannol tymor canolig ar waith. Mae blaenoriaethau clir y Cyngor, y 'broses o herio gwasanaethau' a'r trefniadau ymgynghori ac ymgysylltu yn cyfrannu at y broses hon. O ganlyniad, mae dull tymor canolig effeithiol o reoli ariannol yn cael ei ddatblygu, ac ymrwymir adnoddau i'r blaenoriaethau.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2011.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2010-11 fod yn unol â'r swm a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Derwyn Owen

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig

29 Tachwedd 2011

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Ddinbych

## Amcanion gwella Cyngor Sir Ddinbych

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cafodd *Cynllun Corfforaethol 2009-2012* y Cyngor ei lunio ar sail pedair blaenoriaeth gorfforaethol (yn ymwneud â darparu gwasanaethau) a phedair thema wella (yn ymwneud â datblygu gallu ac adnoddau'r sefydliad). Yn 2010, pennodd y Cyngor bum amcan gwella ar gyfer 2010-11, yr oedd pedwar ohonynt yn ymwneud â'r blaenoriaethau corfforaethol a fodolai eisoes, ac un yn ymwneud â rhesymoli'r pedair thema wella. Parhaodd y Cyngor â'r amcanion hyn yn 2011-12.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella yn y ddogfen *Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol 2010-11* sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn http://www.sirddinbych.gov.uk/cy-gb/dnap-7uwemu. Mae'r amcanion gwella fel a ganlyn:

| **Amcanion gwella Sir Ddinbych ar gyfer 2010-11 a 2011-12** | |
|---|---|
| **1** | Addasu'r modd y darperir gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael â newidiadau demograffig. |
| **2** | Lleihau amddifadedd a thyfu economi Sir Ddinbych yn gynaliadwy drwy dargedu adnoddau yn strategol. |
| **3** | Moderneiddio'r gwasanaeth addysg i gyflawni lefel uchel o berfformiad ar draws y sir. |
| **4** | Sicrhau rhwydwaith ffyrdd ac amddiffynfeydd llifogydd cynaliadwy. |
| **5** | Gwella'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio. |

## Hunanasesiad o berfformiad Cyngor Sir Ddinbych

Gellir dod o hyd i hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ei *Adolygiad Perfformiad Blynyddol,* 2010-11, sydd ar gael gan y Cyngor ac ar ei wefan yn: http://www.sirddinbych.gov.uk/cy-gb/dnap-7uwemu.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk